CYFARFOD GRŴP IECHYD A DIOGELWCH APCAP **14 Gorffennaf 2026** 14:00	
Yn bresennol: Tegryn Jones (TG), Sara Morris (SM), Joy Arkley (JA), Libby Taylor (LT), Michelle Webber (MW), Tom Iggleden (TI), James Parkin (JP), Kate Attrill (KA), Kate Gravell (KG), Emma Gladstone (EG) Andrew Muskett (AM), Chris Taylor (CJ)	
1	**Ymddiheuriadau:** Jessica Morgan (JM), Marie Parkin (AS)
2	**Cytuno ar Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2026.** **Materion yn Codi** **Asesiadau Risg Tân** heb eto eu cwblhau, roedd Ymgynghorwyr yn eu hadolygu. **Cynrychiolwyr Staff:** Roedd Nigel Payton wedi cytuno i fod yn Gynrychiolydd Staff ar y Grŵp Iechyd a Diogelwch. **Digwyddiad yn Sant Gofan** – is-grŵp wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod i drafod y digwyddiad. **Diffoddydd Tân** mewn cerbydau – JA i ddilyn y mater hwn ymhellach ac adrodd i'r Tîm Rheoli. **Offer Cymorth Cyntaf mewn Cerbydau Fflyd** – Mae'r mater hwn wedi'i ddilyn ymhellach gyda'r Weinyddiaeth Fflyd, a bydd pob cerbyd o hyn ymlaen yn cario pecyn cymorth cyntaf. **Llofnodi Asesiadau Risg** - Yn gyffredinol, ystyrir bod y system a sefydlwyd gan TG yn addas at y diben. Bydd JA a TI yn trafod gyda TG a yw'r system hon yn addas at y diben ar gyfer Wardeniaid Cefn Gwlad sydd â nifer o Asesiadau Risg i'w llofnodi. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2026.
3	**Damweiniau a Digwyddiadau Ebrill – Mehefin 2026** Roedd rhywfaint o bryder ynghylch nifer y digwyddiadau a adroddwyd o'i gymharu â Chwarter 3 yn 2025. A ydym yn hyderus bod pob digwyddiad, gan gynnwys digwyddiadau oedd bron â digwydd, yn cael eu hadrodd? Bydd Gwasanaethau Pobl yn parhau i weithio gyda'r Arweinyddion Tîm i fonitro adrodd. Mae angen mynd i'r afael â nifer y digwyddiadau cerbydau yn ogystal â cholli oriawr reactec.
4.	**Iechyd, Salwch a Llesiant Staff** Dywedodd TJ bod absenoldeb salwch yn uwch yn 2026 o'i gymharu â 2025. Nid oedd yn ymddangos bod hyn i'w briodoli i unrhyw achosion amlwg na sylfaenol.
5	**Hyfforddiant a Datblygu** Roedd y cyfraddau presenoldeb a chwblhau yn uchel ar y pryd ond bod angen cynnal y lefelau hyn.
6	**Matrics Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch** Dywedodd JA bod 80% o'r matrics wedi'i gwblhau a bod y wybodaeth heb ddod i law oddi wrth datgarboneiddio nac oddi wrth dwy Ganolfan Ymwelwyr (Castell Henllys ac Oriel y Parc). Byddai dogfen gryno yn cael ei llunio pan fyddai'r wybodaeth yn gyflawn.

7	**Cynllun Gweithredu ar Iechyd a Diogelwch** Rhannwyd y Cynllun Gweithredu Drafft gyda'r grŵp. Cytunwyd i ychwanegu Gweithio ar Uchder. Hefyd cytunwyd i ddosbarthu arfer gorau ar weithio eisteddol a phroblemau cyhyrysgerbydol.
8	**Syndrom dirgryniad llaw-braich (HAVS) – Adolygiad CSM 14 Mai 2026** Roedd adroddiad cryno wedi'i ddosbarthu gyda'r agenda. Diben yr adolygiad oedd adolygu'r arfer cyfredol ac ôl-ystyried y sefyllfa flaenorol gan gynnwys y dysgu a rennir. Roedd adroddiad chwarterol gan Reactec i'w greu. Roedd HAVS yn eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod tîm. Roedd y goruchwylwyr i wirio fel rhan o'r cyfarfodydd llesiant a yw cydweithwyr yn dioddef unrhyw symptomau.
9	**Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch** Roedd nifer o asesiadau risg heb eu cwblhau. Roedd Cefn Gwlad yn adolygu'r asesiadau hynny mewn adolygiad blynyddol i ystyried a oes angen adolygiad blynyddol a/neu a ellir gwneud adolygiadau ar adegau gwahanol. A allwn ostwng nifer yr asesiadau risg sy'n weddill yn ein timau? Mae nifer yr asesiadau risg sydd heb eu gwneud i'w lleihau. Y Tîm Cefn Gwlad i wneud argymhellion ynghylch yr asesiadau risg hynny nad oes angen eu hadolygu yn flynyddol.
10	**Adborth y Grŵp Cynrychiolwyr Staff** Nid oedd y Cynrychiolydd Staff a benodwyd yn ddiweddar, Nigel Payton, yn bresennol. Dywedodd CJ, hyd y gwyddai ef fel Cynrychiolydd Staff, nad oedd unrhyw faterion wedi'u codi gan y grŵp hwnnw.
11	**Adborth Undebau Llafur** Dim sylwadau gan Unsain.
12	**Unrhyw Fater Arall** **Arwyddion Risg Tân -** Nid rôl yr Awdurdod yw darparu arwyddion ym meysydd parcio Cyngor Sir Penfro. Cytunwyd y dylai'r timau adolygu pa arwyddion sydd eu hangen ar eu timau. Roedd arwyddion pobl yn cwympo yn cael eu harddangos. Nid oedd yn ymddangos bod proses ganolog ar gyfer archebu arwyddion. **Cwymp creigiau yn Saundersfoot** – digwyddodd hyn ar ran Cyngor Sir Penfro o lwybr yr arfordir felly nid oedd angen cymryd unrhyw gamau gweithredu. **Y cyfryngau cymdeithasol** – sylwadau ar ddiogelwch, risg tân, a chwymp creigiau ac ati. Dylid adolygu'r **Polisi Diogelwch Personol yn y cyfarfod nesaf.** Daeth y cyfarfod i ben am 14.40pm.
13	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - 13eg o Hydref 2026**